# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Tachwedd 2012




## Eisteddfod Trevelin

Daeth y flwyddyn eisteddfod i'w therfyn yn ystod penwythnos olaf mis Tachwedd werth i nifer deithio i odre'r Andes o bob cwr o Chubut a thu hwnt ar gyfer Eisteddfod Trevelin.

Caiff yr eisteddfod hon ei chynnal ar benwythnos olaf Ebrill neu benwythnos cyntaf Mai fel arfer, ond penderfynwyd ei chynnal ddiwedd mis Tachwedd eleni er mwyn iddi gyd-fynd â dathliadau pen blwydd Trevelin yn 127 mlwydd oed.



Fel y rhan fwyaf o eisteddfodau, dechreuodd Eisteddfod Trevelin 2012 gyda'r rhagbrofion a gynhaliwyd fore dydd Gwener y 23ain o fis Tachwedd. A'r noson honno cafwyd gwledd o gystadlu yng Nghlwb Fontana y dref gydag eisteddfod y plant. Fe'i hagorwyd trwy ganu anthem genedlaethol yr Ariannin cyn i Isaías Grandis estyn gair o groeso i'r eisteddfodwyr. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am anwyliaid. Gwelwyd dawnsio gwerin, adrodd a chanu ar y llwyfan gan blant a phobl ifanc o bob oed, y cyfan dan ofal Beatriz Palomino a Margarita Green, ac roedd hi'n dipyn o her yn wynebu'r beirniaid i ddewis y goreuon o'u plith! Dyma'r beirniaid: Gladys Thomas (dawnsio gwerin a dawnsio traddodiadol o wledydd eraill), Gonzalo Villalba a Mónica Williams (cerddoriaeth Gymraeg a Sbaeneg), Marta Sotes a Marta Fernandez (adrodd Sbaeneg) a Sara Jones (adrodd Cymraeg) gyda Mary Green yn cyfieithu ei beirniadaethau i'r Sbaeneg. Daeth y diwrnod i ben yn brydlon gyda 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn atseinio drwy'r neuadd.



Am hanner awr wedi dau y prynhawn canlynol, y 24ain o Dachwedd, daeth tro y bobl hŷn i gystadlu yn eu tro. Ond yn gyntaf canwyd anthem genedlaethol yr Ariannin unwaith eto i agor ail ddiwrnod Eisteddfod Trevelin 2012, ac unwaith eto cafwyd gair o groeso a munud o dawelwch cyn i Isaías Grandis a Moira Torne arwain y prynhawn. Ond cyn i'r cystadlu ddechrau, adroddodd Adriana Rowlands gerdd yn deyrnged i María Julia Alemán de Brand. Mwynheuwyd amrywiaeth o gystadlu eto, gydag eitemau offerynnol hefyd yn rhan o'r arlwy ar y dydd Sadwrn. Cafodd canlyniadau'r cystadlaethau llenyddol eu cyhoeddi yn eu tro trwy gydol y prynhawn hefyd, gyda chyfle i glywed beirniadaethau'r beirniaid: Beryl Griffiths (barddoniaeth a rhyddiaith cyfrwng Cymraeg), Ivonne Owen (cyfieithu Cymraeg-Sbaeneg-Cymraeg), Ivanna Mansilla (cyfieithu Sbaeneg-Saesneg), Susana Fabaratto (cyfieithu Sbaeneg-Eidaleg), Julia Chakyoura a Gustavo de Vera (llenyddiaeth Sbaeneg), Pablo Modugno (darlunio), a Mercedes Lirio (celf a chrefft).



Cafwyd toriad ganol y prynhawn gyda gwahoddiad i bawb fwynhau te Cymreig yn nhŷ te Nain Maggie, a rhai yn manteisio ar y cyfle i gynnal ymarferion funud olaf!

Lois Dafydd



Agorodd sesiwn olaf Eisteddfod Trevelin gyda pherfformiad arbennig gan Gôr Madrigal Trevelin a Dawnswyr Gwanwyn. Roedd y gynulleidfa yn amlwg wrth ei bodd gyda'r gymeradwyaeth yn fyddarol! Aldo Sangiovanni a Lois Dafydd oedd arweinwyr y noson, gan wahodd cystadleuwyr mewn amryw gystadlaethau i'r llwyfan yn eu tro. Ond prif ddigwyddiad y sesiwn hwn oedd Seremoni Gwobrwyo'r Beirdd.

Am y tro cyntaf yn Eisteddfod Trevelin, ymunodd aelodau o Orsedd y Wladfa â gosgordd y seremoni ar y llwyfan dan arweiniad y Llywydd, Ivonne Owen. Hefyd ar y llwyfan roedd tair cadair wag yn disgwyl enillwyr tair prif gystadleuaeth yr eisteddfod, sef Medal Arian Cymdeithas Gymraeg Bro Hydref, Y Goron a'r Gadair.



Trosglwyddwyd yr awennau i Alwen Green a Daiana Owen wrth iddyn nhw alw ar enillydd Y Fedal Arian i godi ar ei draed neu ar ei thraed, ac ar ôl i'r enillydd gymryd ei sedd ar y llwyfan cyhoeddwyd mai Huberto Nicanor Cuevas o Tandil, talaith Buenos Aires oedd ei enw. Cystadleuaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed yw hon, a'u tasg oedd llunio cerdd rydd ar destun o'u dewis nhw.

Coron yr Eisteddfod oedd nesaf a thasg ymgeiswyr y gystadleuaeth hon oedd cyfansoddi cerdd rydd yn Sbaeneg. Datgelwyd mai Dolores Cesar oedd enw'r bardd, o Hurlingham, Buenos Aires.



Yr olaf o'r tair cystadleuaeth oedd y Gadair. Cerdd ar y testun 'Llais' neu 'Lleisiau' oedd gofynion y gystadleuaeth, ac ar ôl darllen y feirniadaeth, cyhoeddwyd mai 'Macsen Patagonia' oedd yn cipio'r gadair, a safodd Dr David Williams ar ei draed ar alwad Alwen Green. (y gerdd).



Cyflwynwyd gwahanol roddion i'r tri bardd a dawnsiodd marched Ysgol Puertas Del Sol Ddawns y Blodau i'w hanrhydeddu cyn i bawb adael y llwyfan.

Aeth y cystadlu yn ei flaen tan oriau mân y bore, ac i gloi'r cystadlu cododd y sawl oedd wedi aros tan y diwedd ar eu traed i ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.



Llongyfarchiadau i bwyllgor Eisteddfod Trevelin a'r holl gystadleuwyr!




# Diwrnod y Teulu

Ar fore braf a'r haul yn danbaid, cynhaliodd Ysgol Feithrin y Gaiman ddathliad ar gyfer y teulu yng Nghanolfan Arturo Roberts.

Daeth amryw o blant yr ysgol yno gyda'u rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd i chwarae nifer o gemau oedd wedi cael eu paratoi gan yr athrawon - bowlio deg, pysgota, taflu cylchoedd dros goniau. Wrth gwrs, gyda'r haul yn gwenu'n braf roedd y rhain i gyd wedi cael eu gosod yn y cysgod!

Ar ôl yr holl chwarae daeth hi'n amser bwyta, a thra roedd pawb arall yn chwarae'r tu allan bu ambell dad yn brysur yn coginio'r cig yn y quincho. Bwrgeri i bawb, yn ogystal â chreision, empanadas, brechdanau, a ffrwythau.

Daeth y dathliad i ben gyda phlant Dosbarth Gwyrdd yn hedfan barcutiaid roedden nhw wedi'u gwneud yn yr ysgol y diwrnod cynt - tasg ddigon anodd ar ddiwrnod pan nad oedd llawer o awel yn chwythu! Serch hynny, roedd y plant - a'r rhieni - i'w gweld yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Roedd yn ddiwrnod braf i ddathlu pob teulu unigol yn ogystal â chymuned yr ysgol.

# Cymanfa Ganu Capel Bryn Crwn



Mae'r gymanfa ganu sy'n cael ei threfnu gan Gymdeithas Dewi Sant yn fisol yn teithio capeli'r dyffryn, ac ym mis Tachwedd ymwelodd â Chapel Bryn Crwn. Agorodd y capel hwn ei ddrysau i drigolion yr ardal a thu hwnt, ac ar ddiwrnod mor braf arhosodd y drysau hynny ar agor wrth i'r gymanfa ddechrau.

Estynnodd Lois Dafydd air o groeso i'r sawl oedd wedi ymgynnull yno cyn eu harwain mewn gweddi. Yna dechreuodd y canu dan arweiniad Ida Williams a'r lleisiau yn cael eu cario drwy'r drysau ac i'r caeau a'r bryniau y tu allan. Ar ôl i Rebeca White arwain dau emyn darllenodd Ariela Gibbon o'r Beibl - Eseia 42:1-9 - a'r adnodau hyn oedd sail neges y Parch. Julio Ross.

Arweiniwyd gweddill yr emynau Cymraeg a Sbaeneg gan Marli Pugh, Edith MacDonald a Gladys Thomas, a'r rheini i gyfeiliant Liz Suárez a Gwilym Roberts ar yr organ. Cyn gorffen y gymanfa canodd bawb 'Pen Blwydd Llawen' i Rebeca White, sef trefnydd y cymanfaoedd, ac ar ôl i Liliana Evans draddodi'r fendith ymunodd pawb i ganu'r emyn 'Cwm Rhondda' i ddod â'r gwasanaeth i ben. Yn ôl yr arfer, tynnwyd llun o bawb y tu allan i'r capel cyn troi am adref.

Bydd y gymanfa nesaf, cymanfa ola'r flwyddyn, yn cael ei chynnal yng Nghapel Nasareth Drofa Dulog ar yr 22ain o fis Rhagfyr.



# Holi Liliana Freeman...

1. **O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol?**
   *Dw i'n dod o Esquel yn wreiddiol, ond rwan dw i'n byw yng Nghomodoro. Symudais yma i gael gwaith yn y diwydiant petrol, ond dw i wedi ymddeol erbyn hyn.*

2. **Ble, sut a pham ddysgoch chi Gymraeg?**
   *Y Gymraeg oedd iaith y tŷ.*

3. **Sut deimlad oedd hi i gael eich derbyn i Orsedd y Wladfa?**
   *Teimlais yn onest.*

4. **Beth ydy eich enw barddol, a pham?**
   *Liliana del Chenque yw fy enw barddol, achos rwan dw i'n perthyn i Gymdeithas Dewi Sant Comodoro.*

5. **Ers pryd ydych chi'n athrawes Gymraeg yng Nghomodoro?**
   *Ers y flwyddyn 2000, ac mae saith o ddisgyblion yn mynd i'r dosbarthiadau.*

6. **Pa fath o bethau mae Cymdeithas Dewi Sant Comodoro yn eu gwneud?**
   *Rydym yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg, a mae grŵp dawnsio gwerin Tân Bach yn ymarfer yn y neuadd, ac ry'n ni'n cynnal te parti yma yn aml.*

7. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud?**
   *Dw i'n hoffi dysgu Cymraeg a theithio. Ond dw i ddim yn hoffi dringo!*

**8. Beth ydy eich hoff fwyd?** Asado, wrth gwrs!

**9. Ydych chi wedi bod i Gymru?** *Do, dw i wedi bod i Gymru dair gwaith.*

---

Dyma ddwy gerdd gan ar ansoddeiriau dwbl fynychwyr y dosbarth Cymraeg sy'n cael ei gynnal yn Neuadd Dewi Sant bob bore Iau...



Fe welaf i gyda'n llygaid bach i
Goed tal, blodeuog;
Buwch ddu, llawn bywyd;
Mochyn coch, drwg
Wrth gerdded drwy'r fferm.

gan Celia, Anita ac Ana

Fe welaf i gyda'n llygaid bach i...
Gerrig bychain, lliwgar;
Twmpathau pigog, llwyd;
Morgrugyn gweithgar, cyflym;
Cwningen flewog, ryfedd
Wrth fynd am dro drwy'r paith

gan Ana Richards

# Diwrnod y Traddodiadau




Ar y 10fed o Dachwedd roedd yr Ariannin yn dathlu Diwrnod y Traddodiadau. Dyma ddyddiad y dathlu gan mai ar y diwrnod hwn yn y flwyddyn 1834 y ganed y bardd José Hernández, sef awdur 'El gaucho Martín Fierro' sy'n croniclo hanes gaucho Archentaidd ar ffurf penillion - ei ffordd o fyw, ei arferion, a'i iaith. Cyhoeddwyd y gwaith pwysig hwn yn 1872.

Y bardd Francisco Timpone gafodd y syniad o glustnodi diwrnod penodol i ddathlu traddodiadau'r gaucho yma yn yr Ariannin, ac yn 1937 fe'i cynigiodd yn un o gyfarfodydd *Bases*, sef sefydliad oedd yn deyrnged i Juan Bautista Alberdi oedd a'i bencadlys yn La Plata. Felly ar y 6ed o Fehefin 1938, cyflwynodd *Bases* gais gerbron Senedd Talaith Buenos Aires i'r 10fed o Dachwedd gael ei adnabod yn Ddiwrnod y Traddodiadau. Ar y 18fed o Awst y flwyddyn ganlynol cyhoeddwyd fod y cais wedi cael ei dderbyn a'i basio, a chynhaliodd llywodraethwyr La Plata a San Antonio de Areco ddathliadau i nodi flwyddyn gynta'r ŵyl.



Fyth ers hynny mae Archentwyr wedi bod yn dathlu Diwrnod y Traddodiadau mewn gwahanol ffyrdd gydag ysgolion ar hyd a lled yn wlad yn dysgu am hanes a thraddodiadau'r wlad, a nifer fawr o blant yn gwisgo'r dillad traddodiadol ar y diwrnod arbennig hwn. Un o'r ysgolion hyn oedd Ysgol Feithrin y Gaiman. Ar brynhawn Iau yr 8fed cawson nhw stori gan Lois Dafydd ar draddodiadau Cymru a'r prynhawn canlynol, y 9fed o Dachwedd (gan fod y 10fed yn syrthio ar ddydd Sadwrn) cynhaliodd yr ysgol brynhawn o weithgareddau. Bu'r plant, gyda'u rhieni, yn chwarae amryw o gemau, yn canu ac yn dawnsio cyn dod at ei gilydd i fwynhau tot o fate a 'tortas fritas' o amgylch coelcerth o dân, a phawb yn eu gwisgoedd traddodiadol. Yn Ysgol yr Hendre cafodd y disgyblion blwyddyn 3 gyfle i goginio 'facturas' blasus wrth i flwyddyn 4 gael gwers ar sut i baratoi mate. Cafodd pawb hwyl yn blasu'r bwydydd traddodiadol hyn amser brecwast!



Dyma ddiwrnod arbennig i gofio, dathlu a pharchu ein hunaniaeth, gan gynnal y traddodiadau sydd wedi cael eu cynnal gan ein cyndeidiau gyhyd.


# Taith Fythgofiadwy



Fel miloedd o Gymry, roeddwn yn weddol gyfarwydd â hanes y Wladfa cyn ymweld â hi. Roeddwn wedi darllen am anturiaethau'r 'Cowbois Cymraeg' pan oeddwn yn fachgen yn yr ysgol gynradd, ac wedi darllen am hanes y mudo a'r sefydlu ar ôl hynny, yn ogystal â gweld nifer o raglenni teledu dros y blynyddoedd. Ond un peth yw hynny, rhywbeth hollol wahanol yw bod yno yn y wlad ei hun a chyfarfod â'r bobl.



Roeddwn eisoes wedi clywed gan Lois am y croeso a'r gefnogaeth mae hi wedi eu cael gan bawb dros y ddwy flynedd diwethaf, ac roeddwn yn falch o'r cyfle i roi wynebau i'r enwau. Ac wrth gwrs fe brofodd Gwion a minnau yr un croeso a charedigrwydd. Nid wyf am fod mor ffôl â cheisio enwi pawb gan y byddwn yn siŵr o anghofio rhai, ond diolch i bawb a aeth allan o'u ffordd i fynd â ni i weld y ffermydd a'r capeli yn y dyffryn – a'r pengwiniaid yn Punta Tombo. A diolch hefyd i bawb a'n gwahoddodd i'w cartrefi i gael cinio, te a swper.



A wrth sôn am fwyd – un o hoff bynciau Lois yn ei blog, fel mae sawl un wedi sylwi – mwynheuon ni'n fawr asado'r Bwthyn Bach, swper yn Gwalia Lân, paned ym Mhlas y Coed, paned arall (a mwy) ar ôl oedfa nos Sul yng Nghapel Bethel, y Gaiman, a'r *pizza* hanner nos ym Mhlas y Graig! Diolch o galon.

A rhwng yr holl hebrwng a'r gweini arnom, ac nid arnom ni yn unig ond ar bawb sy'n ymweld o Gymru, mae'n syndod bod gan bobl amser i wneud unrhyw beth arall, ond cawsom agoriad llygad i weld cymaint o weithgareddau fin nos oedd yn cael eu cynnal, ac roedd hi'n fraint cael cymryd rhan ynddynt. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'r Grŵp Trafod yn Nhŷ Camwy ac i'r sgwrs yn siop lyfrau 'Un Amor Diferente'.



Ac roedd hi'n hwyl bur bod yng nghwmni plant Ysgol yr Hendre, Ysgol Feithrin y Gaiman, Cylch Chwarae Dolavon a chriw Ôl-feithrin y Gaiman a gweld eu brwdfrydedd hwy – a'u hathrawon – dros y Gymraeg.



Ymweld â Lois cyn ei bod yn gorffen ei thymor gyda Menter Patagonia oedd yr esgus dros ddod drosodd eleni, ond yn bendant ni fydd angen esgus arna i na Gwion i ddychwelyd. Mae'r ddau ohonom yn edrych ymlaen yn barod.

Elgan Davies, Aberystwyth

# *Brownies*
## - cacennau siocled blasus a phoblogaidd tu hwnt!

Cynhwysion:

200g neu 250g siocled tywyll - mae'n dibynnu pa mor siocledaidd yr hoffech chi'r *brownies*
3 ŵy
175g menyn
325g siwgr
30g blawd plaen



Cynheswch y popty ar farc nwy 3.

Rhowch y siocled a'r menyn mewn bowlen dros sosban o ddŵr - peidiwch â gadael i'r dŵr ferwi - nes eu bod nhw wedi toddi.

Tynnwch y fowlen o'r gwres. Ychwanegwch y siwgr a'i gymysgu'n drylwyr.

Nesaf, ychwanegwch y blawd a chymysgu'r cyfan yn dda.

Yn olaf ychwanegwch yr wyau a chymysgu popeth nes bod y gymysgedd yn drwchus ac yn feddal.

Irwch dun sgwâr neu hirsgwâr a'i iro gyda menyn, ac arllwyswch y gymysgedd iddo.

Pobwch y *brownies* am 30-35 munud a gadewch iddyn nhw oeri cyn eu torri'n sgwariau.



Gallech eu bwyta ar eu pen eu hunain, neu gyda hufen-iâ neu hufen.


Gallech chi hefyd ychwanegu cnau neu ffwrythau coch i'r gymysgedd, er enghraifft - mefus, mafon neu geirios.

Beth am ddefnyddio jam llaeth yn lle'r siocled tywyll?

Mwynhewch!

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

### Bwyd / *Comida*



| | |
|---|---|
| Bara | *Pan* |
| Caws | *Queso* |
| Ham | *Jamon* |
| Menyn | *Manteca* |
| Cig | *Carne* |
| Mefus | *Frutilla* |
| Mafon | *Frambuesa* |
| Afal | *Manzana* |

## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...

PLAS HEDD
Complejo Turístico

Fflatiau moethus
a heddychlon
ger môr Madryn.

(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

*Plas-y-Coed*




Tŷ Te hynaf
Gaiman.

Croeso Cymreig a
the traddodiadol ers 1944.

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

TeithiauTango
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED

www.teithiautango.co.uk

Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n
arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar
gyfer ffermwyr
yn Nhrelew

camposur
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

*Gwalia Lân*



Bwyty safonol
gydag awyrgylch
Gymreig a chroeso
cynnes.


Cornel Heol Eugenio Tello
a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Cwestiynau Clecs

1. Beth oedd testun cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Trevelin?
2. Faint o siwgr sydd ei angen i wneud *brownies*?
3. Ble cynhaliwyd Diwrnod y Teulu Ysgol Feithrin y Gaiman?
4. Ar ba ddyddiad mae Diwrnod y Traddodiadau?
5. Ble cynhaliwyd Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant?
6. Beth ydy enw barddol Liliana Freeman?
7. Beth ydy enw'r llyfr ysgrifennodd José Hernández?
8. Beth ydy testun y chwilair?
9. Ble cynhaliwyd y te yn ystod egwyl Eisteddfod Trevelin?
10. Llun o beth sydd angen i'r plant ei liwio?
11. Pryd a ble fydd y gymanfa ganu nesaf?
12. Ym mha siop lyfrau cynhaliodd Elgan Davies sgwrs?
13. Pwy luniodd y cerddi ar ansoddeiriau dwbl?
14. Sawl ŵy sydd ei angen i wneud *brownies*?
15. Beth fu disgyblion blwyddyn 4 Ysgol yr Hendre yn eu coginio ar Ddiwrnod y Traddodiadau?

# Cornel y Plant

## Lliwiwch lun 'Diwrnod y Traddodiadau'



## Chwilair Y Traeth

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| r | h | e | t | r | e | l | i | h | a | u | l | n |
| s | b | m | y | th | r | w | s | a | d | h | i | h |
| d | h | g | w | y | l | i | a | u | f | ll | p | u |
| b | d | y | o | b | f | w | th | l | h | n | ng | f |
| e | s | c | d | f | g | h | r | c | n | g | m | e |
| j | a | ff | g | h | m | t | n | s | r | a | g | n |
| s | b | e | c | t | o | l | h | a | u | l | h | i |
| e | th | n | b | g | r | ch | p | i | n | t | h | a |
| b | m | p | i | a | d | y | i | h | r | e | f | m |

Tywod
Môr
Gwyliau
Haul
Hufen-iâ
Sbectol haul
Het
Eli haul

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198